Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Gwobrau Ystadau Cymru 2024: canllaw ymgeisio

Canllawiau ar gyfer cyflwyno cais ar gyfer Gwobrau Ystadau Cymru 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 11 Mehefin 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 11 Mehefin 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwobrau-ystadau-cymru-2024-canllaw-ymgeisio-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Meini Prawf y Gwobrau**

**Gwybodaeth ategol**

**Tystebau**

**Dyddiad cau**

**Awgrymiadau defnyddiol**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwobrau-ystadau-cymru-2024-canllaw-ymgeisio-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyflwyniad

Mae Ystadau Cymru yn rhan bwysig o ddull strategol Llywodraeth Cymru o reoli asedau tir ac eiddo. Mae cydweithredu yn ymddygiad allweddol yn strategaeth rheoli asedau Llywodraeth Cymru ei hun ac mae Ystadau Cymru yn parhau i chwarae rhan allweddol fel yr arweinydd strategol wrth gefnogi a hyrwyddo manteision rheoli asedau cydweithredol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Gwobrau blynyddol Ystadau Cymru yn rhoi cyfle i ni ddathlu a hyrwyddo rhagoriaeth ym maes rheoli'r ystâd gyhoeddus yng Nghymru, a gyflawnwyd drwy gyrff yn y sector cyhoeddus yn cydweithio.

## Meini Prawf y Gwobrau

- Rhaid i'r sefydliad sy'n ymgeisio ddod o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n rhaid bod y prosiect wedi'i gyflawni yng Nghymru.
- Rhaid i’r prosiectau fod wedi'u cyflawni mewn cydweithrediad ag o leiaf un partner arall yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector.
- Rhaid i’r prosiectau fod wedi'u cyflawni rhwng mis Ebrill 2022 ac 14 Hydref 2024.

Ystyriwch sut mae eich prosiect yn alinio â gwaith Ystadau Cymru a’i ffocws allweddol ar y canlynol:

- Sicrhau bod asedau’n darparu gwerth i’r cyhoedd
- Rheoli asedau ar y cyd
- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach
- Datgarboneiddio’r ystad gyhoeddus
- Gwella bioamrywiaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwobrau-ystadau-cymru-2024-canllaw-ymgeisio-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Cefnogi’r **Economi Sylfaenol**
- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a’n pentrefi yn lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt
- Cefnogi datblygu Canolfannau Cymunedol a Chanolfannau Gweithio o Bell

Yn olaf, meddyliwch am y ffordd mae eich prosiect yn dangos **Pum Ffordd o Weithio** Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ac egwyddorion datblygu cynaliadwy:

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

## 1. Tymor Hir

Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â’r angen i ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir.

## 3. Integreiddio

Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar eu hamcanion nhw neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

## 3. Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae’r corff yn ei gwasanaethu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwobrau-ystadau-cymru-2024-canllaw-ymgeisio-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 4. Cydweithio

Cydweithio ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o’r corff ei hun) a allai helpu’r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.

## 5. Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

# Gwybodaeth ategol

Rhowch dystiolaeth ychwanegol i gefnogi'ch cais. Dylid anfon y rhain fel atodiadau neu ddolenni gwe ar wahân mewn e-bost.

Delweddau a logos sy'n helpu i gefnogi a hyrwyddo eich prosiect a gwaith YC.

Dylid cyflwyno delweddau eglur iawn naill ai mewn ffeil JPEG neu PNG sydd wedi'i hatodi ar wahân. Dimensiynau cyffredin yw 1024x576, 1280x720 neu 1920x1080.

**Peidiwch ag ymgorffori dogfennau na lluniau yn y ffurflen gais**

Rydym hefyd yn eich gwahodd i anfon gwybodaeth atodol arall fel datganiadau i'r wasg, fideos neu adroddiadau fel opsiwn ychwanegol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwobrau-ystadau-cymru-2024-canllaw-ymgeisio-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Tystebau

Datganiadau o gefnogaeth yw tystebau a ddefnyddir i ddangos y gwaith cydweithio yn eich prosiect. Rydym yn awgrymu eich bod yn cynnwys un gan noddwr o'ch sefydliad a rhywbeth gan bartneriaid neu fuddiolwyr eich prosiect.

# Dyddiad cau

**5pm ar 14 Hydref 2024**

Mae'r amser a'r dyddiad cau yn derfynol ac ni dderbynnir ceisiadau hwyr na diwygiadau i geisiadau sy'n bodoli eisoes ar ôl hyn.

Rydym yn disgwyl i'r Gwobrau barhau yn 2025. Os nad oes gennych lawer o dystiolaeth, er enghraifft o effaith, efallai yr hoffech ystyried oedi cyn cyflwyno'ch cais tan y flwyddyn nesaf.

# Awgrymiadau defnyddiol

Dyma rai pethau i'w hystyried yn eich cais:

- Sut ydych chi wedi addasu neu greu gweithleoedd i gefnogi llesiant staff a/neu ddefnyddwyr?
- Disgrifiwch sut mae'r prosiect yn dangos arloesedd gwirioneddol. Dylech ddangos sut rydych wedi ystyried y dyfodol ac amlygwch unrhyw ddulliau newydd rydych wedi'u defnyddio i sicrhau bod y prosiect yn llwyddo.
- Gwnewch Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r **Pum Ffordd o Weithio** yn ganolog yn eich cais ac ystyriwch sut rydych chi'n cwrdd â phob

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwobrau-ystadau-cymru-2024-canllaw-ymgeisio-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

un o'r Pum Ffordd.

- Dywedwch wrthym sut rydych wedi cydweithio'n effeithlon, gan ddatblygu a chynnal cydberthnasau.
- Eglurwch sut rydych wedi gwella gwasanaethau ac wedi darparu canlyniadau cadarnhaol i staff a dinasyddion nid yn unig am y tro ond yn y dyfodol.
- Rhowch ddarlun o sut beth yw arfer gorau fel y gall eraill ddilyn gan weld beth y gellir ei gyflawni.
- Edrychwch ar enillwyr blaenorol yn **Ystadau Cymru** ar LLYW.CYMRU

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwobrau-ystadau-cymru-2024-canllaw-ymgeisio-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.